



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.llyw.cymru](http://www.llyw.cymru)

**Ymateb i adolygiad thematig Estyn o  
effaith y rhaglen hyfforddiant ychwanegol i  
raddedigion (Teach First) yng Nghymru**



ISBN digidol 978 1 4734 5927 4  
© Hawlfraint y Goron Chwefror 2016  
WG28054

**Teitl yr adroddiad: Effaith y rhaglen hyfforddiant ychwanegol i raddedigion (Teach First) yng Nghymru**

**Manylion yr adroddiad**

*Comisiynwyd yr adroddiad a'r cyngor gan yr Is-adran Safonau Ymarferwyr a Datblygu Proffesiynol i asesu effaith ac effeithiolrwydd y Rhaglen Hyfforddiant Ychwanegol i Raddedigion fel mesur gwella ysgolion, yn cynnwys tystiolaeth o ddeilliannau dysgwyr.*

**Crynodeb o'r prif ganfyddiadau.**

Yn gryno, mae canfyddiadau'r adroddiad yn awgrymu er bod rhai graddedigion disglair â gwybodaeth heb ei hail a'r rhinweddau personol i fod yn athrawon gwych wedi cymryd rhan yn y rhaglen, nid oes llawer o'r athrawon hyn yn aros yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn cydnabod bod y rhan fwyaf o gyfranogwyr yn dangos partneriaethau effeithiol gydag athrawon a disgyblion ac maent yn llawn cymhellant i wella eu haddysgu a defnyddio gwaith ymchwil i nodi dulliau o gynorthwyo disgyblion dan anfantais. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at yr angen i raglen Teach First, ei phrifysgol bartner ac ysgolion cysylltiedig ddarparu cymorth digonol i sicrhau iechyd a lles cyfranogwyr; yn enwedig yn nyddiau cynnar yr hyfforddiant mewn ysgol.

Nodwyd bod ansawdd y cymorth gan fentor a roddir i gyfranogwyr yn amrywio a bod angen hyfforddiant priodol ar gyfer y mentoriaid eu hunain o ran hunan-arfarnu, asesu a chasglu data, er y cydnabyddir bod Teach First wedi cymryd camau i roi hyfforddiant a chyfarwyddyd ychwanegol i helpu mentoriaid ysgolion i fynd i'r afael â gwendidau. Nid yw rhai ysgolion a chyfranogwyr yn siŵr sut mae arfarnu effaith y rhaglen ac mae hyn yn cyfyngu ar eu gallu i gynllunio strategaethau cynaliadwy i wella ac adeiladu ar ddeilliannau a chyrhaeddiad dysgwyr. Lle bu cyfranogwr yn addysgu mewn ysgol am ddwy flynedd lawn y rhaglen, mae tystiolaeth fod perfformiad mewn TGAU wedi gwella er bod Estyn wedi dweud ei bod hi'n anodd priodoli hyn yn uniongyrchol i'r rhaglen ar draul ymyriadau eraill i wella ysgolion.

**Argymhelliad 1**

**A1 Sicrhau bod darparwyr hyfforddiant i athrawon yn helpu hyfforddeion i ddatblygu'r addysgeg fwyaf effeithiol ar gyfer eu pwnc a'u sector.**

Mae pob un o'r pedwar argymhelliad yn yr adroddiad yn ymwneud â Llywodraeth Cymru a'u nod yw cryfhau'r Rhaglen Hyfforddiant Ychwanegol i Raddedigion a llwybrau eraill i addysgu. Mae argymhelliad un yn ymwneud â datblygu cymorth addysgeg effeithiol ar gyfer pob athro dan hyfforddiant beth bynnag fo'i lwybr i addysgu neu lle mae arni gyda'i astudiaethau a pha bwnc mae'n ei astudio.

Bydd Llywodraeth Cymru, fel rhan o'r agenda i ddiwygio Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon (HCA) yng Nghymru a'r cymorth sy'n cael ei ddatblygu ar gyfer athrawon cymwysedig o dan y Fargen Newydd, yn sicrhau bod

strategaethau addysgu a dysgu effeithiol yn cael eu hadlewyrchu yn y gwaith i ddatblygu safonau proffesiynol diwygiedig ar gyfer athrawon ym mhob cam o'u gyrfa, yn cynnwys ar ddechrau'u gyrfa ac yn ystod HCA. Mae gofynion ychwanegol i gefnogi addysgeg a strategaethau addysgu a dysgu effeithiol yn cael eu hystyried hefyd fel rhan o'r gwaith i ddiwygio'r trefniadau ar gyfer achredu'r rhaglen HCA.

O ran y Rhaglen Hyfforddiant Ychwanegol i Raddedigion, byddwn yn trafod gyda Teach First Cymru sut y gellid datblygu'r argymhelliad hwn ymhellach i gefnogi'r rheini sy'n cymryd rhan yn y rhaglen ar hyn o bryd a'r cohort 2016/17 sy'n cael ei recriwtio ar hyn o bryd.

## **Argymhelliad 2**

### **A2 Ystyried strategaethau i wella ansawdd y mentora mewn ysgolion, i alluogi athrawon dan hyfforddiant i wneud cynnydd da a chyflawni eu potensial.**

Mae ansawdd mentora a'r cymorth ar ei gyfer yn amrywio mewn ysgolion ledled Cymru. Mae mentora o ansawdd da a neilltuo'r amser a'r adnoddau i gyflawni'r rôl hon yn effeithiol yn ofyniad allweddol sydd nid yn unig yn berthnasol i HCA a datblygiad proffesiynol cynnar athrawon, ond gydol y gwahanol gamau o lwybr gyrfa athrawon hefyd.

Bydd Llywodraeth Cymru, fel rhan o'r adolygiad o feini prawf achredu HCA, yn sicrhau bod mentora athrawon dan hyfforddiant mewn ysgolion yn rhan annatod o'r trefniant partneriaeth rhwng y darparwr a'r ysgol, ei fod wedi'i strwythuro'n dda, yn cael ei gefnogi'n dda (yn cynnwys cymorth a hyfforddiant ar gyfer y mentor) ac yn cael ei gydnabod fel elfen hanfodol o hyfforddiant yn yr ysgol.

Ar gyfer y rhai sy'n cymryd rhan yn y Rhaglen Hyfforddiant Ychwanegol i Raddedigion, mae rôl y mentor yn yr wythnosau cyntaf o hyfforddiant yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod cyfranogwyr yn cael cymorth i barhau â'r rhaglen. Rydym wedi nodi'r trefniadau hyfforddi sydd ar waith ar gyfer mentoriaid a byddwn yn trafod gyda Teach First sut y gall cymorth mentor ar gyfer cyfranogwyr, a mentoriaid eu hunain, gael ei gryfhau ymhellach a'i strwythuro yn yr wythnosau cyntaf tyngedfennol mewn ysgol sy'n cynnig lleoliadau Teach First.

## **Argymhelliad 3**

### **A3 Sicrhau bod pob rhaglen ar gyfer hyfforddiant cychwynnol i athrawon yn cefnogi athrawon dan hyfforddiant yn effeithiol yn ystod wythnosau cyntaf yr addysgu.**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod y cymorth sydd ar gael i athrawon dan hyfforddiant i sicrhau eu hiechyd a'u lles yn dyngedfennol er mwyn iddynt barhau â rhaglen HCA, llwyddo i ennill statws Statws Athro Cymwysedig, dod yn athrawon newydd gwych ac aros yn y proffesiwn addysgu.

Fel rhan o'r diwygiadau ehangach i HCA, byddwn yn edrych ar ffyrdd o alluogi ysgolion i fabwysiadu dull ysgol gyfan o gynorthwyo athrawon dan hyfforddiant o dan arweiniad yr uwch dîm arwain a mentoriaid. Bydd prifysgolion sy'n darparu hyfforddiant yn cyfrannu at hyn hefyd drwy sicrhau bod athrawon dan hyfforddiant yn dilyn rhaglen HCA o'r radd flaenaf sy'n eu galluogi i fod yn athrawon newydd gymhwyso hyderus, cymwys, gwydn ac ymroddgar, gan gynnig cymorth ychwanegol i'r athrawon dan hyfforddiant sydd ei angen.

Ar gyfer y Rhaglen Hyfforddiant Ychwanegol i Raddedigion, byddwn yn gofyn i Teach First ystyried canfyddiadau Estyn yn ofalus a nodi unrhyw ddiffygion yn y cymorth sydd ar gael ar hyn o bryd i gyfranogwyr y rhaglen a chyflwyno mesurau a strategaethau i unioni'r diffygion hynny.

#### **Argymhelliad 4**

##### **A4 Gwella casglu data mewn hyfforddiant cychwynnol i athrawon i arfarnu effeithiolrwydd rhaglenni hyfforddi.**

Bydd Llywodraeth Cymru yn edrych yn ofalus ar y trefniadau a'r gofynion casglu data sydd ar waith ar hyn o bryd er mwyn mesur pa mor effeithiol yw'r addysg a hyfforddiant cychwynnol athrawon sydd ar gael drwy bob llwybr. O ran y Rhaglen Hyfforddiant Ychwanegol i Raddedigion, byddwn yn gofyn i Teach First ystyried sut mae cyfranogwyr yn rhannu canlyniadau gwaith dadansoddi olrhain disgyblion, casglu data a dilysu gyda'u mentoriaid ac ysgolion i sicrhau bod yr effaith ar welliannau a deilliannau yn achos disgyblion unigol ac ysgolion cyfan yn cael ei hamlygu a'i harfarnu er mwyn adeiladu ar lwyddiant a chefnogi gwelliannau cynaliadwy.

#### **Manylion cyhoeddi**

Cyhoeddir yr adroddiad llawn ar wefan Estyn ar 26 Chwefror 2016:  
<http://www.estyn.gov.wales>